



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021,
(yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Andrew Jones	(AJ)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Hefyd yn Bresennol:		
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Aled Bishop	(AB)	Swyddog Digidol
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol Cymru (NWSSP)
David Heyburn	(DH)	Pennaeth Gweithrediadau, Microbioleg

Stuart Silcox	SS:	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Llywodraethu Integredig
Karen Williams	(KW)	Pennaeth Gweithrediadau Datblygu Sefydliadol a Phobl
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau:		
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Eleri Davies	(ED)	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Dros Dro Datblygu Sefydliadol a Phobl
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undebau Llafur

Dechreuodd y cyfarfod am 10am

PHW 223/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau
Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb. Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan esbonio'r angen i barhau â chyfarfodydd rhithwir, sy'n canolbwyntio ar agenda'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac i staff drwy ddolen ffrydio byw ar y wefan ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi ar-lein. Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: ddatblygu strategaeth a rhoi cyfeiriad iddi; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwyllo risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod ar ei orau, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath. Dywedodd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; gellir gweld y fersiwn a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar y wefan yma - https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team Esboniodd hefyd fod y Bwrdd, yn unol â'i ymrwymiad i welliant parhaus, wedi addasu'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd, i wneud y gorau o'r amser a dreulir ar sicrwydd a chymeradwyo. Roedd y papurau'n cynnwys cynnig i newid strwythur y Bwrdd/Pwyllgorau o fis Ebrill 2021, i adlewyrchu amgylchiadau newidiol.
PHW 224/2021 Datgan Buddiannau
Ni wnaeth aelodau'r bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

PHW 225/2021 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**PHW 225.1/2021 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno'i hadroddiad, tynnodd TC sylw at y canlynol:

- Llwyddiant o ran cadw achrediad UKAS: ISO15189 2012 mewn perthynas â'r Labordy Sgrinio ym Mharc Magden. O dan arweinyddiaeth Gareth Powell, roedd y tîm wedi darparu gwasanaeth labordy o ansawdd uchel drwy gydol y pandemig ac yn llawn haeddu sylwadau canmoliaethus y tîm asesu;
- Cymeradwyaeth y Gweinidog i fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau diogelu iechyd, ar ôl cyflwyno'r Achos Busnes ym mis Tachwedd 2020. Byddai'r 109 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) ychwanegol a gymeradwywyd yn hwyluso cyflwyno system diogelu iechyd gydnerth, gynaliadwy ac integredig i Gymru;
- Y cais ar wahân am gyllid cylchol mewn perthynas â staff ychwanegol ar gyfer rhaglen frechu rhag COVID-19, o ystyried rôl allweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y rhaglen;
- Y cyfarfod y prynhawn hwnnw â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o'r cyfarfodydd misol yr oedd hi a JW yn eu mynychu â'r Gweinidog ac Andrew Goodall;
- Y newyddion diweddaraf am Amrywiolynnau COVID-19 sy'n Peri Pryder (VoC). Manylodd AJ ar y rhain, gan nodi cyflwyno dwy ddogfen i Lywodraeth Cymru (Amrywiolynnau a Mwtaniadau sy'n Peri Pryder (VAMC): dull adnabod a rheoli yng Nghymru a Llawlyfr Proses o'i ddechrau i'w ddiwedd ar gyfer Timau Gweithredol yng Nghymru).

Diolchodd JW i TC ac AJ am y newyddion diweddaraf; estynnodd werthfawrogiad y Bwrdd i'r holl staff fu'n gysylltiedig â'r llwyddiannau a nodwyd yn yr adroddiad.

Yna gofynnodd JW am y trefniadau goruchwylio a sicrwydd sy'n sail i'r rhaglen buddsoddi mewn diogelu iechyd. Amlinellodd TC y trefniadau rheoli rhaglen; byddai AJ yn cyflawni rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol a byddai Bwrdd Rhaglen yn adrodd i'r Tîm Busnes Gweithredol. Byddai gan y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella rolau sicrwydd a byddai'r Bwrdd llawn yn cael diweddariadau rheolaidd, o ystyried pwysigrwydd strategol y buddsoddiad. Gofynnodd JW i gadeiryddion a swyddogion gweithredol arweiniol y ddau Bwyllgor bennu'r union drefniadau sicrwydd.

CAMAU GWEITHREDU: KE/RB-W/AJ; MM/NL

Gwnaeth SG sylw ar sefydlu Sefydliad Cenedlaethol Diogelu Iechyd yn Lloegr, o 1 Ebrill 2021; gofynnodd am y goblygiadau posibl i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd TC y cysylltiadau sydd ar waith a'r cyswllt parhaus ar lefel y DU.

Penderfynodd y Bwrdd **dderbyn** y wybodaeth a **chymryd sicrwydd** o'r camau gweithredu sydd ar y gweill/wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r eitemau a drafodwyd.

PHW 225.2/2021 Diweddariad Cyffredinol ar y Coronafeirws Newydd (COVID-19)

Rhoddodd AJ ddiweddariad cyffredinol, gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyfraddau achosion yn parhau i ostwng, ond ar gyfradd arafach nag a fu; yr amser haneru bellach oedd 50 diwrnod;
- Y gyfradd gyffredinol, ar 23 Chwefror 2021, oedd 75 fesul 100,000 o'r boblogaeth, gydag ystod rhwng 27 a dros 100 fesul 100,000 o'r boblogaeth, sy'n amlygu'r amrywiadau sy'n dal i fodoli ledled Cymru;
- Y gyfradd positifedd gyffredinol oedd 7%, gydag ystod rhwng 3.5% ac 11%; roedd y rhif R amcangyfrifedig rhwng 0.8 a 0.9;
- Roedd derbyniadau i'r ysbyty yn parhau i ostwng, ynghyd â derbyniadau i Unedau Therapi Dwys (ITU); roedd y gyfradd marwolaethau dyddiol wedi gostwng, ond nododd AJ, yn anffodus, bod dros 5200 o bobl wedi marw yng Nghymru hyd yma.

Rhoddodd AJ ddiweddariad manwl ar Amrywiolynnu sy'n Peri Pryder (VoC):

- Roedd mwntaniadau ac amrywiolynnu yn nodwedd o coronafirysau ac roedd gwaith ar y gweill ar lefel y DU ar adnabod amrywiolynnu;
- Roedd systemau ar waith ar lefel y DU i sicrhau atal cychwynnol yn cynnwys cyfyngiadau mewn perthynas â rheoli ffiniau a sefydlwyd ar 15 Chwefror 2021, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bobl sy'n cyrraedd o wlad sydd ar y 'rhestr goch' ynysu am ddeg diwrnod;
- Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddilynianu'n weithredol ar lefel gymunedol, a ategir gan reoli achos gweithredol lle ceir achosion;
- Ar 24 Chwefror 2021, roedd Cymru wedi wynebu cyfanswm o 21 amrywiolyn. Esboniodd AJ y gwahaniaeth rhwng amrywiolynnaus yn destun ymchwiliad ac amrywiolynnu sy'n peri pryder. Dywedodd mai amrywiolyn Caint oedd yr amrywiolyn mwyaf cyffredin yng Nghymru, ac yn gyfrifol am 65-95% o heintiadau ledled y wlad. Nid oedd tystiolaeth ar hyn o bryd o drosglwyddiad parhaus 'amrywiolyn De Affrica' yn y gymuned;
- I grynhoi: roedd nifer yr achosion yn parhau'n isel ac yn gostwng; roedd y mwyafrif yn gysylltiedig â theithio; ac roedd trefniadau rheoli achos gweithredol ar waith.

Gorffennodd AJ ei gyflwyniad drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dri mater arall:

- Brechu - ar 24 Chwefror 2021 roedd dros 878,000 o bobl wedi cael dos cyntaf y brechlyn, ac roedd 60,000 o bobl wedi cael eu hail ddos. Roedd sylw bellach wedi troi o Grwpiau Blaenoriaeth 1-4, at Grwpiau 5 a 6. Mae'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y brechlyn hyd yma dros 90%. Roedd

48% o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael eu brechu, yn cynnwys 84% o staff rheng flaen;

- Roedd tystiolaeth yn cadarnhau anghydraddoldebau o ran manteisio ar y brechlyn mewn cymunedau BAME ac ymhlith y rheiny sy'n 80+, gydag amddifadedd hefyd yn cael effaith. Data cychwynnol oedd hwn a byddai gwyliadwriaeth a gwaith dadansoddi yn parhau;
- Nododd arolwg diweddar gan YouGov fod 72% o'r cyfranogwyr yn ystyried Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy, yn ail i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn unig.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd JW i AJ am y cyflwyniad; roedd yn amlygu'r gwaith sylweddol sydd ar y gweill. Gwahoddodd sylwadau a chwestiynau:

Canmolodd DE AJ am gyflwyniad cynhwysfawr ac addysgiadol, a phwysleisiodd werth darparu cyngor i Lywodraeth Cymru, i lywio polisi. Nododd fod tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch effaith COVID-19 yn mapio ar draws i waith mapio anghydraddoldebau iechyd ehangach; pwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio'r wybodaeth hon i lywio polisi.

Canmolodd SG hefyd y gwaith sy'n cael ei wneud ac, fel DE, nododd fod y map newydd o ran lledaeniad COVID-19 a'r cyfraddau gwahaniaethol o ran manteisio ar y brechlyn yn cyfateb i'r sefyllfa o ran anghydraddoldebau ehangach. Roedd hyn yn tanlinellu effaith penderfynyddion strwythurol iechyd.

Penderfynodd y Bwrdd **gymryd sicrwydd** o'r holl gamau a nodwyd fel rhan o'r drafodaeth.

PHW 225.3/2021 Gwelliannau mewn Microbioleg yn dilyn Buddsoddiad

Aeth JB a DH ag aelodau'r Bwrdd drwy gyflwyniad sleidiau oedd yn cyfeirio at y prif bwyntiau a nodwyd yn eu hadroddiad:

- Y buddsoddiad i'w groesawu gan Lywodraeth Cymru a alluogodd ddatblygu gwasanaethau Labordy GIG Cymru ymhellach; roedd hyn yn cynnwys: tri labordy rhanbarthol 24/7; cyflwyno labordai gwib mewn chwe safle Ysbyty; a datblygu labordy profi am COVID-19 mewn niferoedd mawr. Gyda'i gilydd, roedd y cynnydd hwn mewn capasiti wedi gwella amseroedd dychwelyd profion yn sylweddol;
- Yn dilyn yr amser a fuddsoddwyd yn hyfforddi a sefydlu staff newydd, roedd rhaglen wella newydd yn defnyddio methodolegau darbodus ar y gweill ar draws y rhwydwaith labordai. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar lyfnhau llif a mynd i'r afael â thagfeydd drwy ailgynllunio, gan ganolbwyntio nid yn unig ar berfformiad labordai ond hefyd ar y broses o'i dechrau i'w diwedd. Roedd hyn wedi lleihau amseroedd dychwelyd profion o dros 20 awr i bum awr ar draws y rhwydwaith labordai;

- Roedd cam nesaf y gwaith yn ymwneud â gweithio â byrddau iechyd a Bwrdd y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ar brosesau yn y labordy a phrosesau system ehangach.

Wrth gloi'r cyflwyniad, nododd JB a DH pa mor gyflym fu'r gwelliant, a gyflwynwyd yn ystod cyfnod o bwysau gwaith hynod heriol; roedd hyn yn eithriadol. Roedd y ddau yn cydnabod ymrwymiad a brwdfrydedd timau'r labordai wrth gyflawni'r gwelliannau sylweddol a welwyd ar draws y system, ynghyd â'u hymrwymiad i wneud newidiadau pellach.

Wrth ddiolch i JB a DH, mynegodd JW ei diolch hefyd ar ran y Bwrdd i'r tîm, gan nodi'r bwriad i rannu'r hyn a ddysgwyd yn ehangach, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yna gwahoddodd JW farn a sylwadau:

Llongyfarchodd DE bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwelliannau ac roedd o'r farn ei fod yn gyfle dysgu ehangach i'r sefydliad. Roedd DH yn cytuno ac amlinellodd y ffyrdd roedd y dysgu ehangach hwnnw eisoes yn digwydd.

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a'r cyflwyniad a **chymerodd sicrwydd** o'r dystiolaeth sylweddol o welliant ar draws system labordai GIG Cymru. **Nododd** y Bwrdd y gwaith pellach sydd ar y gweill ac roedd yn edrych ymlaen i glywed y newyddion diweddaraf yn y dyfodol

Nodyn: Gellir gweld y cyflwyniad drwy'r ddolen ganlynol:

https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2020-2021/25-feb_February-2021/25-feb_February-2021-board-papers/

PHW 225.4/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo

PHW 225.4.1 /2021 Llywodraethu Integredig

Cyflwynodd TC yr Eitem Agenda hon, gan nodi bod cynnig wedi'i gynnwys yn ad-drefnu strwythurol 2018/19 i greu tîm llywodraethu integredig fel rhan o bortffolio RB-W. Roedd y pandemig wedi golygu atal y gwaith dros dro ond y farn oedd ei bod hi bellach yn briodol ailgydio ynddo.

Rhoddodd SS gyflwyniad byr i ategu'r Papur y gellir ei weld yma - https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2020-2021/25-feb_February-2021/25-feb_February-2021-board-papers/ :

- Roedd y gwaith yn adeiladu ar y trefniadau llywodraethu cryf sydd eisoes ar waith ac yn cydnabod y dull deinamig ac integredig a fabwysiadwyd gan y Bwrdd i sicrhau llywodraethu cyffyrddiad cywir;
- Roedd y gwaith paratoadol wedi cynnwys adolygu modelau llywodraethu gwahanol; addaswyd y model a ffafrwyd o'r ACCA (Cymdeithas y

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig). Mae'n ymwneud yn bennaf ag ymlyniad, symrlwydd a chysondeb, gyda diwylliant sefydliadol yn greiddiol iddo;

- Roedd y gwaith o ddatblygu'r model wedi ystyried pandemig COVID-19 a chyfleoedd eraill ar gyfer dysgu sefydliadol;
- Gan gydnabod y pwysau gwaith presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, byddai tri maes peilot yn cael eu rhoi ar waith yn gyntaf: llywodraethu gwybodaeth; sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig; a'r ymateb i COVID-19. Byddai'r gwaith yn cynnwys datblygu mesurau gwella, wedi'u cefnogi gan strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo ymgysylltiad a dealltwriaeth.

Diolchodd JW i SS am ei gyflwyniad addysgiadol; crynhodd sylwadau a wnaed gan MM a JR mewn perthynas â gwerth ychwanegol y cynnig, yn ychwanegol at y trefniadau llywodraethu cyfredol, ac amseriad y gweithredu arfaethedig. Gwahoddodd JW unrhyw sylwadau eraill, cyn gofyn i SS ymateb.

Roedd AW yn cydnabod manteision integreiddio pellach ond roedd yn amau gallu staff i gymryd rhan, o ystyried rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru ar flaen y gad yn yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru. Sicrhodd SS y Bwrdd na fyddai'r cynigion peilot yn cael effaith andwyol ar staff, gan ddefnyddio cynllun gweithredu torri data fel enghraifft o'r dull integredig ar waith. Roedd staff yn gallu gweld manteision cyd-gysylltu'r gwahanol gydrannau llywodraethu ac roedd hyn argoeli'n dda ar gyfer y gwaith o gyflwyno'r dull.

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo'r** Model Llywodraethu Integredig arfaethedig; byddai'r Pwyllgor Archwilio yn parhau â'i rôl oruchwylio, wrth i'r model gael ei gyflwyno ar draws y sefydliad.

PHW 225.4.2/2021 Llywodraethu'r Bwrdd o fis Ebrill 2021 Ymlaen

Cyflwynodd JW yr eitem a thynnodd sylw at y newidiadau a wnaed i drefniadau llywodraethu ym mis Mawrth 2020, i adlewyrchu effaith pandemig COVID-19. Roedd y Bwrdd wedi gwneud newidiadau pellach yn ystod y flwyddyn ac roedd y Papur yn nodi newidiadau arfaethedig pellach i lywodraethu ar lefel Bwrdd a Phwyllgorau, o 1 Ebrill 2021. Aeth ag aelodau'r Bwrdd drwy'r trefniadau arfaethedig fel y nodir yn Adran 3 y Papur, a gynlluniwyd i adlewyrchu'r amgylchedd strategol a gweithredu newidiol.

Gwahoddodd JW VW i leisio barn ar y newidiadau arfaethedig, o gofio bod Archwilio Cymru wedi gwneud sylw ar effeithiolrwydd y trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer 2020/21. Croesawodd VW y newidiadau arfaethedig oedd yn amserol yn ei thyb hi, a nododd y byddai aildechrau'r sesiynau datblygu o werth penodol i aelodau newydd y Bwrdd. Ailadroddodd VW ei chynghor blaenorol o ran yr angen i bostio sleidiau cyflwyno ar y wefan mewn modd amserol ac i gofnodi trafodaethau mewn modd digonol, wrth ddefnyddio deunydd cyflwyno. Dywedodd fod y cofnodion hyd yma yn cynnwys manylion digonol yn ei barn hi.

Diolchodd JW i VW am y cyngor defnyddiol a gofynnodd am unrhyw sylwadau ac ymholiadau:

Croesawodd DE y cynigion fel rhai synhwyrol ac amserol, gan gydnabod bod y Bwrdd wedi bod yn ysgafndroed a hyblyg yn ystod y flwyddyn a byddai'n parhau i fod felly. Atgoffodd y Bwrdd o'r angen i ddangos gwerth rôl y Corff Llywodraethu, ac elfen allweddol ohoni oedd canolbwyntio ar strategaeth yn y dyfodol.

Roedd JW yn cytuno â sylwadau DE a chadarnhaodd y byddai gwaith cyn COVID-19 ar ganlyniadau a dangosyddion ar lefel Bwrdd yn ailddechrau, fel rhan o'r ffocws hwnnw ar werth ychwanegol.

Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd yr amrywiadau i amserlen y Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel yr amlinellwyd, sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2021, gydag adolygiad dilynol ym mis Gorffennaf 2021.

PHW 225.4.3/2021 Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru - ymestyn y cytundeb lletya

Atgoffodd HW y Bwrdd o'r angen i ystyried trefniadau lletya yn flynyddol; gofynnodd i'r Bwrdd gymeradwyo ymestyn y cytundeb lletya ar gyfer Cydweithrediad GIG Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Cyfeiriodd HB at yr angen i gynnwys Iechyd Digidol Cymru (Awdurdod Iechyd Arbennig) fel llofnodwr o 1 Ebrill 2021.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr estyniad i'r Cytundeb Lletya ar gyfer Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

PHW 225.4.4/2021 Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28.01.2021

Cadarnhaodd JW fod gan aelodau'r Bwrdd gyfle i ystyried y Cofnodion ar ffurf drafft cyn y cyfarfod, gan ddileu'r angen i ystyried cywirdeb yn fanwl yn ystod y cyfarfod ei hun.

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

PHW 226/2021 Eitemau i'w nodi

PHW 226.1/2021 Amgylchedd Gwaith Diogel COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyweddodd JW fod y Papur hwn wedi deillio o drafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2021. Roedd yn nodi'r holl gamau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau diogelwch staff, p'un a oedd staff yn gweithio gartref neu yn y swyddfa. Canmolodd y timau cyfleusterau a stadau am eu diwydrwydd yn hyn o beth.

Nododd y Bwrdd y ddogfen hon.

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion 25 Chwefror 2021
------------------------	-------------------------------

PHW 227/2021 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Mawrth 2021.
PHW 228/2021 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus
Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.